## Beth yw sgamiau?

**MAE SGAM YN DWYLL AC MAE TWYLL YN DROSEDD!**

Mae sgamiau'n gwneud i bobl roi eu harian a'u manylion personol i bobl eraill drwy godi ofn arnynt neu addo arian, gwobrau, gwasanaethau neu ad-daliad mawr ffug iddynt ar eu buddsoddiad.

Eu bwriad yw cael pobl i ddatgelu eu manylion personol, dwyn eu gwybodaeth neu hyd yn oed eu perswadio i wneud taliad neu drosglwyddo arian parod.

## Ffeithiau am Sgamiau

# £5-10

## BILIWN Y FLWYDDYN

Cost sgamiau i economi'r DU yw £5-10 Biliwn y flwyddyn

**53%**

o bobl 65+ oed wedi cael eu targedu gan sgam

**5%**

o ddioddefwyr sgam sy'n riportio'r sgam i gorff swyddogol

**Gall unrhyw un ddioddef sgam, waeth beth yw eu cefndir.**

**Mae'r bobl sy'n sgamio'n droseddwyr diegwyddor creulon.**

## Ydych chi'n gwybod sut i adnabod sgam?

Nid yw pob cyfathrebiad sy'n cynnwys yr eitemau isod yn sgamiau, ond os byddwch yn derbyn rhywbeth sy'n dweud wrthych am wneud un o'r pethau hyn, dylech fod yn ofalus a gofyn barn gan gyfaill neu berthynas rydych yn ymddiried ynddynt:

**Pethau i edrych amdanynt**

- Mae'r person sy'n cysylltu â chi'n gofyn am arian er mwyn i chi allu derbyn eich gwobr.
- Cynigion sy'n rhy dda i fod yn wir, fel sicrhad y byddwch yn ennill arian loteri.
- Pwysau i ateb yn gyflym, "cynnig am amser byr yn unig, atebwch nawr."
- Eich annog i gadw'r cysylltiad yn gyfrinach oddi wrth deulu neu ffrindiau.
- Dweud wrthych am anfon arian dramor neu symud eich arian i gyfrif banc rhywun arall.
- Eich annog i glicio ar ddolenni neu agor atodiadau mewn neges e-bost.
- Galwadau ffôn sy'n dod gan rifau anhysbys neu dramor.



Friends Against SCAMS

# CANLLAW AM SGAMIAU



**Mae sgamiau'n effeithio ar fywydau miliynau o bobl ledled Prydain, mae pobl sy'n cael eu sgamio'n teimlo cywilydd ac unigrwydd o'i herwydd yn aml.**

Mae Friends Against Scams yn fenter gan Dîm Sgamiau'r Safon Genedlaethol ar gyfer Hyfforddiant (NTS) sy'n ceisio diogelu pobl a'u hatal rhag dioddef sgamiau drwy eu galluogi i sefyll yn gryf yn erbyn sgamiau.

NATIONAL TRADING STANDARDS
Scams Team

# Beth yw'r gwahanol fathau o sgamiau?

**SGAMIAU POST**

Mae'r mathau cyffredin o sgamiau post yn cynnwys loteri a gwobrau ffug, cynigion i fuddsoddi, etifeddu arian, ffyrdd o wella'r iechyd a llythyrau gan glirweledwyr.

**SGAMIAU FFÔN**

Mae'r mathau cyffredin o sgamiau ffôn yn cynnwys sgamiau buddsoddi, pensiwn neu gymorth cyfrifiadurol.

Mae'r person sy'n galw'n hynod o broffesiynol yn aml iawn a gallai ddweud ei fod o sefydliad rydych yn ymddiried ynddo, fel eich banc, yr heddlu neu gwmni arall rydych yn ei adnabod. Efallai bod gan y galwr rywfaint o'ch manylion sy'n gwneud iddynt ymddangos yn ddilys.

**SGAMIAU STEPEN DRWS**

Troseddwyr sy'n cymryd arnynt eu bod yn bobl fusnes ddilys yn gwerthu nwyddau neu wasanaethau sy'n ddiffygiol, dianghenraid, rhy ddrud, o ansawdd isel neu ddim yn bodoli.

**SGAMIAU AR Y RHYNGRWYD**

Efallai y bydd neges e-bost yn edrych petai wedi dod gan eich banc neu gwmni arall i'ch twyllo i roi manylion personol.

Efallai y bydd yn gofyn i chi roi clic ar ddolen sy'n eich cymryd i wefan ffug lle gofynnir i chi roi eich manylion.

# Pam mae pobl yn ymateb i sgamiau?

Er mwyn bachu pobl a'u cael i ymateb i sgamiau, mae troseddwyr weithiau'n dewis pobl sy'n unig, yn agored i niwed ac wedi eu hynysu o gymdeithas.

Mae llawer o bobl yn byw gyda rhyw fath o ddirywiad gwybyddol, fel dementia, a allai effeithio ar eu gallu i wahaniaethu rhwng sgamiau a chyfleoedd dilys. Efallai bod eraill yn unig neu wedi eu hynysu'n gymdeithasol felly does ganddyn nhw neb i droi atynt i ofyn barn a yw'r cynnig yn ddilys.

Unwaith y bydd rhywun wedi ymateb i sgam, mae eu manylion personol yn cael eu rhannu'n ddiddiwedd a'u gwerthu ymlaen i droseddwyr eraill a fydd yn defnyddio'r wybodaeth i'w targedu dro ar ôl tro gyda naill ai bost sgam, galwadau ffôn niferus, neu ymweliadau dro ar ôl tro i'w cartrefi er mwyn eu twyllo, eu camarwain, codi ofn arnynt a'u bwlio i wario eu cynilion bywyd.



Friends Against SCAMS

NATIONAL TRADING STANDARDS
Scams Team

# Sut i'ch diogelu eich hun ac eraill

- Dywedwch 'Na' wrth bobl sy'n galw'n ddieisiau ac nad ydych wedi eu gwahodd.
- Os bydd cynnig yn edrych yn rhy dda i fod yn wir, mae'n debyg ei fod.
- Peidiwch â theimlo dan bwysau i wneud penderfyniad, cymerwch eich amser a gofynnwch am gyngor.
- Byddwch yn ddoeth am sgamiau post, ni fyddai unrhyw gwmni dilys yn gofyn am arian i hawlio gwobr.
- Cadwch eich manylion personol yn ddiogel, sicrhewch bob tro bod y person sy'n siarad â chi'n ddilys ac o gwmni dilys.
- Byddwch yn ddoeth ar-lein, gall troseddwyr gopïo cwmnïau go iawn. Os ydych yn ansicr, peidiwch ag agor dolenni neu atodiadau mewn negeseuon e-bost.
- Siaradwch â rhywun y gallwch ymddiried ynddynt os ydych yn amheus.
- Gall unrhyw un gael eu twyllo gan sgam. Os gwelwch chi sgam, riportiwch e bob tro.

# Rhagor o wybodaeth

Ewch i **www.FriendsAgainstScams.org.uk**

**Cymru a Lloegr**
**Riportio:** ffoniwch **Action Fraud** ar **0300 123 2040**
**Cyngor:** ffoniwch **Cyngor ar Bopeth** ar **0808 223 1133**

**Yr Alban**
**Riportio:** ffoniwch **Police Scotland** ar **101**
**Cyngor:** ffoniwch **Advice Direct** ar **0808 164 6000**

**Gogledd Iwerddon**
**Riportio:** ffoniwch **Action Fraud** ar **0300 123 2040**
**Cyngor:** ffoniwch **Consumerline** ar **0300 123 6262**